Eich Llais Powys

Rhifyn 8

Mai 2022

YN Y RHIFYN HWN:

Diweddariad Aelodau	3
Gwasanaeth Eiriolaeth	4
Sbotolau Aelodau	4
Rhestr Cyfarfodydd	6

Bach o hwyl

1. Ble mai Llyfrgell Genedlaethol Cymru?

2. Mae Chymru'n gartref i'r ogof ddyfnaf ym Mhrydain, beth yw ei henw?

3. Ble mae'r castell mwyaf yng Nghymru?

4. Canodd Shirley Bassey y caneuon thema am ba tair ffilm "James Bond"?

Atebion ar dudalen 6

Clywed Eich Barn

Wrth i ni lanio yn 2022 roeddem i gyd yn obeithiol nad oedd ein gallu i ymgysylltu wyneb yn wyneb unwaith eto yn rhy bell i ffwrdd. Fel Corff Gwarchod Cleifion y GIG sy'n gweithio ar ran trigolion Powys, ein rôl ni yw adlewyrchu eich barn a'ch profiadau am wasanaethau'r GIG yr ydych wedi'u defnyddio. Mae wedi bod yn dasg anodd dibynnu'n drwm ar gyfryngau cymdeithasol fel ffordd o ymgysylltu drwy gydol y cyfnodau clo amrywiol. Fodd bynnag, mae'r adborth a gawsom drwy ein harolygon lluosog yn cadarnhau ein bod wedi llwyddo i gyrraedd pobl ym mhob cwr o'r sir.

Os hoffech edrych yn ôl ar unrhyw un o'n hadroddiadau yn dilyn yr ymatebion i'r arolwg a gafwyd, gallwch ddod o hyd iddynt ar ein gwefan - www.powyschc.nhs.wales/what-we-have-to-say/report-library/. Rydym yn falch bod rhai o'n hadroddiadau diweddaraf bellach ar gael ar ffurf Hawdd ei Ddeall hefyd.

Yn awr, yr ydym ym mis Mai, ac, fel cynifer o rai eraill, yr ydym yn gyffrous ein bod o'r diwedd yn gallu mynd allan ar

* Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

draws Powys fel y gallwn, unwaith eto, wrando ar yr hyn sydd gennych i'w ddweud.

Diane Phillips, Swyddog Cymorth Eiriolaeth, yn paratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin

Dr David Collington, Cadeirydd CIC Powys a Sonia Thomas, Eiriolydd Cwynion, ar ein stondin yng Ngŵyl Tyddynnod a Chefn Gwlad

Aethom â'n stondin i'r Ŵyl Tyddynnod a Chefn Gwlad ar 21ain a 22ain o Fai ar Faes y Sioe Fawr yn Llanelwedd.

Rydym hefyd yn edrych ymlaen at fynychu Sioe Frenhinol Cymru am y pedwar diwrnod llawn rhwng 18 a 21 Gorffennaf. Mae'n anodd credu ein bod wedi bod yno ddiwethaf yn 2019 ond, er gwaethaf ychydig flynyddoedd anodd, mae'n ymddangos ei fod wedi hedfan heibio. Dewch i ddweud helo wrthym yn y babell borffor ..... pwy a ŵyr, efallai y bydd gennym rai eitemau hyrwyddo arloesol gwych na allwch fod hebddynt!

Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal arolwg lle'r ydym yn ceisio deall barn pobl am gael mynediad i'w fferyllfa leol yn well. Os ydych wedi ymweld â fferyllfa gymunedol yn ddiweddar neu wedi mynychu ar ran rhywun arall, llenwch ein harolwg yma - **https://forms.office.com/r/fLGkSQjxyj** .

Mae pob ymateb yn gwneud gwahaniaeth a bydd eich adborth dienw yn

cael ei ddefnyddio i lunio adroddiad a fydd yn cael ei rannu â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Hoffem wybod hefyd a yw'r GIG yn gwella trwy fyw gyda COVID a'r hyn y mae'n ei olygu i chi. Rydym am ddarganfod beth mae pobl yn ei feddwl sy'n gweithio'n dda a beth allai fod angen ei wella. Rydym yn parhau i rannu adborth gyda'r GIG fel y gallant gymryd camau i wella gofal lle mae angen hyn. I gael mynediad i'r arolwg hwn, gallwch wneud hynny drwy glicio yma.

Rydym wedi bod yn datblygu ein Cynllun Blynyddol sy'n amlinellu'r meysydd gwaith yr ydym am eu blaenoriaethu yn 2022-23. Rydym hefyd yn ysgrifennu ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-22, a fydd yn rhoi gwybod i bobl am y gwaith rydym wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Cadwch lygad am y rhain sydd ar y gweill ar ein gwefan yn fuan iawn.

Hoffem eich atgoffa, os hoffech gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gweithgareddau ar-lein a'n lleoliad corfforol, y gallwch wneud hynny drwy ein dilyn ar Facebook a Twitter. Rhowch wybod i ni os hoffech gael eich ychwanegu at ein rhestr e-bost a derbyn diweddariadau gennym ni.

Erhygal gan: Andrea Blayney, Dirprwy Brif Swyddog

Diweddariad Aelodau

Croeso i .... Aelod penodedig Llywodraeth Cymru, Pamela Smith, o Dretŵr.

Ffarwel i .... Nicola Ruck, Hywel Lewis a Joanne Coleman. Hoffem ddiolch iddynt am eu holl gefnogaeth yn ystod eu cyfnod fel aelodau o Gyngor Iechyd Cymuned Powys a dymunwn yn dda iddynt.

Gwasanaeth Eiriolaeath

Rydym yn darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion sy'n rhad ac am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol i helpu pobl i fynegi eu pryderon am ofal a thriniaeth y GIG.

Ebrill 2021 - Ebrill 2022 rydym wedi:

- Darparu gwybodaeth am ystod eang o faterion y GIG i 73 o bobl a grwpiau drwy ein gwasanaeth ymholiadau
- Rhoi cymorth i 72 o bobl a oedd am godi pryder am wasanaethau'r GIG drwy ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion a pharhau i gefnogi 38 o bobl yr oedd eu pryderon yn parhau o'r flwyddyn flaenorol
- Datblygu proses a llwybr i bobl allu darparu eu Straeon Profiad Cleifion i ni

Os hoffech drafod unrhyw bryderon sydd gennych am driniaeth y GIG a gawsoch o fewn y 12 mis diwethaf, gallwch gysylltu â ni ar:
01874 610646

Diane Phillips, Swyddog Cymorth Eiriolaeth a Sonia Thomas, Eiriolydd Cwynion

Sbotolau Aelodau - Jane Randall-Smith

Mae wedi bod ychydig fisoedd llawn digwyddiadau i mi! Ym mis Chwefror cefais fy mhenodi'n gadeirydd Pwyllgor Lleol Sir Drefaldwyn. Roeddwn i wedi gwneud fy ngwaith cartref cyn sefyll etholiad, ond roeddwn i'n meddwl i ddechrau beth oeddwn i wedi'i wneud! Mae cyfarfodydd ym mis Mawrth ac Ebrill wedi gwneud i mi werthfawrogi'n llawnach y cyfle sydd gan y CIC i gyfrannu at newid cadarnhaol i bobl Powys, o ran eu profiadau o ddefnyddio'r GIG ac wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol.

Drwy ein pwyllgor lleol mae gennym gyfle i wahodd siaradwyr i'n cyfarfodydd i siarad ar faterion cyfredol sydd o ddiddordeb i bobl yn Sir Drefaldwyn ac rydym yn cynllunio nifer o gyfarfodydd cyffrous am weddill y flwyddyn. Mae'n ardal amrywiol iawn sy'n ymestyn o Fachynlleth yn y gorllewin i'r Trallwng ar y ffin a thu hwnt i Lanfyllin yn y gogledd ac mae hyn yn pennu sut mae pobl yn cael mynediad at wasanaethau a byddem wrth ein bodd yn cael rhai pobl newydd ar ein Pwyllgor Lleol i sicrhau ein bod yn gynhwysol.

Hyd yn hyn, bu'n ychydig fisoedd prysur ac, er ein bod yn dal i weithio'n rhithwir, mae wedi fy ngalluogi i gymryd rhan mewn cyfarfodydd a allai fod wedi bod yn anodd eu cyrraedd fel arall, yn enwedig dros y ffin yn Lloegr, ond yr wyf wrth fy modd bod ein hymgysylltiad wyneb yn wyneb yn ailddechrau ac edrychaf ymlaen at glywed yn uniongyrchol gan bobl am eu profiadau o wasanaethau lleol y GIG dros fisoedd yr haf.

Jane Randall-Smith — llun a dynnwyd yn y Seremoni Wobrwyo yn Llundain, lle cafodd Gymrodoriaeth Er Anrhydedd o'r RCGP

Ble i Ddod o Hyd i Ni

Edrychwch ar ein gwefan:
www.communityhealthcouncils.org.uk/powys

Dilynwch ni ar Facebook ***@PowysCHC*** a Twitter ***@powys_chc***

Gallwch ein helpu drwy annog eich ffrindiau a'ch dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol i "hoffi" a "dilyn" ein tudalennau ac i gwblhau ein harolygon.

Os hoffech wybod mwy ac os hoffech i rywun o Gyngor Iechyd Cymuned Powys roi cyflwyniad i grŵp rydych chi'n perthyn iddo, cysylltwch â ni i drefnu.

Anfonwch eich cais at: **enquiries.powyschc@waleschc.org.uk**

Rhestr Cyfarfodydd 2022/2023

2022		
7th Mehefin	9.30am	Cyngor Llawn / Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
7th Gorffennaf	9.30am	Pwyllgor Lleol Sir Drefaldwyn
12th Gorffennaf	9.30am	Pwyllgor Gwaith
26th Gorffennaf	1.00pm	Pwyllgor Cynllunio Gwasanaethau
28th Gorffennaf	9.30am	Pwyllgor Lleol Sir Faesyfed a Brycheiniog
6th Medi	9.30am	Cyngor Llawn
13th Medi	9.30am	Pwyllgor Gwaith
20th Medi	1.00pm	Pwyllgor Cynllunio Gwasanaethau
6th Hydref	9.30am	Pwyllgor Lleol Sir Drefaldwyn
3rd Tachwedd	9.30am	Pwyllgor Lleol Sir Faesyfed a Brycheiniog
8th Tachwedd	9.30am	Pwyllgor Gwaith
22nd Tachwedd	1.00pm	Pwyllgor Cynllunio Gwasanaethau
6th Rhagfyr	9.30am	Cyngor Llawn
2023		
5th Ionawr	9.30am	Pwyllgor Lleol Sir Drefaldwyn
10th Ionawr	9.30am	Pwyllgor Gwaith
17th Ionawr	1.00pm	Pwyllgor Cynllunio Gwasanaethau
26th Ionawr	9.30am	Pwyllgor Lleol Sir Faesyfed a Brycheiniog
7th Mawrth	9.30am	Cyngor Llawn / Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
14th Mawrth	9.30am	Pwyllgor Gwaith
28th Mawrth	1.00pm	Pwyllgor Cynllunio Gwasanaethau

Swyddfa Aberhonddu
Llawr Gyntaf, Neuadd Brycheiniog, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys LD3 7HR
Ffôn: 01874 624206
Swyddfa Y Drenewydd
Llawr Gyntaf, Ty Ladywell, Y Drenewydd, Powys SY16 1JB

Atebion i gwis tudalen 1
1. Aberystwyth 2. Ogof Ffynnon Ddu 3. Caerffili
4. Goldfinger, Diamonds are Forever a Moonraker